# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Effaith Diwygiadau Lles Llywodraeth y DU: Diwygiadau i Fudd-daliadau Llywodraeth Cymru sy'n cael eu Pasbortio a Deddfwriaeth Arall** |
| **DYDDIAD** | **8 Hydref 2012** |
| **GAN** | **Leighton Andrews, Y Gweinidog Addysg a Sgiliau** |

Mae Deddf Diwygio Lles Llywodraeth y DU 2012 yn cyflwyno dau fudd-dal newydd: Credyd Cynhwysol, fydd yn y pen draw yn disodli nifer o fudd-daliadau yn seiliedig ar incwm ar gyfer pobl mewn gwaith a'r di-waith; a'r Taliad Annibyniaeth Bersonol, fydd yn disodli y Lwfans Byw i'r Anabl. Bydd cyflwyno'r budd-daliadau newydd hyn yn arwain at oblygiadau sylweddol i fudd-daliadau a gwasanaethau Llywodraeth Cymru sydd wedi'u pasbortio, sydd ar hyn o bryd yn defnyddio neu'n seilio eu meini prawf cymhwysedd ar fudd-daliadau yr Adran Gwaith a Phensiynau sy'n cael eu disodli. Bydd yn cael effaith hefyd ar ddeddfwriaeth arall Llywodraeth Cymru sy'n cyfeirio at y budd-daliadau hynny. Bydd y newidiadau yn cael effaith hefyd ar y cynlluniau newydd y mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru eu datblygu o ganlyniad i'r diwygiadau lles.

Mae'r rhestr yn Atodiad 1 yn nodi budd-daliadau Llywodraeth Cymru sy'n cael eu pasbortio, a deddfwriaeth gyfredol arall Llywodraeth Cymru, sy'n cyfeirio at fudd-daliadau presennol yr Adran Gwaith a Phensiynau sy'n seiliedig ar incwm fydd angen eu diwygio.

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio delio â'r her o ddiwygio ei deddfwriaeth ei hun i ymateb i'r diwygiadau lles radical hyn. I grynhoi, o ganlyniad i newidiadau Llywodraeth y DU, mae angen inni ddatblygu atebion niwtral o ran cost i'r meini prawf cymhwysedd newydd ar gyfer budd-daliadau sy'n cael eu pasbortio. Mae'r manylion ynghylch sut y bydd Credyd Cynhwysol yn cael ei weithredu yn parhau i gael eu datblygu ac nid ydym eto wedi derbyn data digon manwl ar lefel Cymru i'n galluogi i asesu effaith y meini prawf cymhwysedd newydd.

Ar hyn o bryd, nid oes cadarnhad gan yr Adran Gwaith a Phensiynau o raddfa a chwmpas y Cynllun Braenaru ar gyfer Credyd Cynhwysol, mae'r cytundebau manwl eto i'w paratoi ar allu'r Adran Gwaith a Phensiynau i gynnal y gwaith gwirio cymhwysedd ar gyfer pasbortio, ac mae angen gwybodaeth gynhwysfawr ar gyfer y

trefniadau terfynol o ran hysbysu y dyfarniadau Credyd Cynhwysol. Rydym yn deall nad yw'r wybodaeth ar gael eto neu yn cael ei hadolygu.

Mae'r angen am ragor o wybodaeth fanwl gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, yr angen i gadarnhau rheoliadau Credyd Cynhwysol, sydd eto i'w gosod gerbron y Senedd, a'r amserlen heriol, yn gwneud hon yn dasg sy'n fwyfwy anodd. Er gwaetha hyn, byddwn yn parhau â'n hymdrechion i geisio sicrhau bod y diwygiadau yn dod i rym erbyn 1 Ebrill 2013.

Wrth i Lywodraeth Cymru ddatblygu ei dulliau o weithredu, byddwn yn parhau i gydweithio'n glos â'n partneriaid ac yn cymryd camau pryd bynnag y bo'n bosib, i liniaru effeithiau negyddol diwygiadau Lles Llywodraeth y DU yng Nghymru.

**Atodiad i'r Datganiad Ysgrifenedig**
**Deddfwriaeth Diwygio Lles**

| Maes Pwnc y Ddeddfwriaeth | Manylion Is-ddeddfwriaeth |
|---|---|
| Cinio Ysgol am Ddim | • Gorchymyn Addysg (Ciniawau Ysgol Rhad ac am Ddim) (Credydau Treth Rhagnodedig) (Cymru) (Diwygio) 2011[OS 2011/710];<br>• Gorchymyn Addysg (Ciniawau Ysgol Rhad ac am Ddim) (Credydau Treth Gweithio) (Cymru) 2009 [OS 2009/1673];<br>• Gorchymyn Addysg (Ciniawau Ysgol Rhad ac am Ddim) (Credydau Pensiwn y Wlad) (Cymru) 2005 [OS 2005/3110];<br>• Gorchymyn Addysg (Ciniawau Ysgol Rhad ac am Ddim) (Credydau Treth Rhagnodedig) (Cymru) 2003 [OS 2003/879]. |
| Cynllun Incwm Isel | • Rheoliadau Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl GIG 2007 [OS 2007/ 1104]. |
| Peidio â chodi tâl am deithiau preswyl gan ysgolion | • Rheoliadau Addysg (Peidio â Chodi Tâl sy'n Ymwneud â Theithiau Preswyl) (Cymru) 2003 [OS 2003/ 860] a'r Rheoliadau Addysg (Peidio â Chodi Tâl sy'n Ymwneud â Theithiau Preswyl) (Cymru) (Diwygio) 2011[OS 2011/ 706]. |
| Taliadau Deintyddol Cleifion y GIG | • Rheoliadau Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl |
| Gofal y Llygad | • Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997/818<br>• Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol |

| Maes Pwnc y Ddeddfwriaeth | Manylion Is-ddeddfwriaeth |
|---|---|
| | (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986/975 |
| Cynllun Nest | • Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) 2011 [OS 2011/ 656] |
| Grantiau Cyfleusterau Anabledd o dan Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai | • Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai 1996/ 2890 |
| Deddfwriaeth Tai Cymdeithasol | • Rheoliadau Gorchmynion Ad-dalu Rhent (Darpariaethau Atodol) (Cymru) 2008/254;<br>• Rheoliadau Tai Amlfeddiannaeth (Blociau Fflatiau Penodol) (Addasiadau i Ddeddf Tai 2004 a Darpariaethau Trosiannol ar gyfer HMOs adran 257) (Cymru) 2007/3231;<br>• Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2012/531;<br>• Rheoliadau Digartrefedd (Cymru) 2006/2646;<br>• Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Ffioedd) (Cymru) 2004/683;<br>• Rheoliadau Tai (Hawl i Brynu) (Ffurflenni Rhagnodedig) 1986/2194;<br>• Gorchymyn Tai (Estyn yr Hawl i Brynu) 1993 [1993/ 2240]; |
| Gorfodi'r Dreth Gyngor | • Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) 2003/522 |
| Grant Cwmnïau Gwasanaethau Bysiau | • Rheoliadau Grant Gweithredwyr Gwasanaethau Bysiau (Cymru) 2002/2022 |
| Deddfwriaeth Gofal Cymdeithasol | • Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) 2005/ 1513;<br>• Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2005 /1512; |

| **Maes Pwnc y Ddeddfwriaeth** | **Manylion Is-ddeddfwriaeth** |
|---|---|
| | • Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiad Awdurdod Lleol) (Cymru) 2008 / 169;<br>• Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Taliadau Uniongyrchol) (Asesu Modd a Phenderfynu ar Ad-daliad neu Gyfraniad) (Cymru) 2011 /963;<br>• Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Asesu Modd a Phenderfynu ar Ad-daliad neu Gyfraniad) (Cymru) 2011/962;<br>• Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) 1992/ 2977; |
| Bathodyn Glas | • Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000 /1786; |
| Cymorth Statudol i Fyfyrwyr – Addysg Uwch | • Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) [OS rhif 886 (W.130)]<br>• Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) 2011 [OS rhif 736]<br>• Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) (Diwygio) 2009 [SO rhif 3359]<br>• Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) 2009<br>• Lwfans Cynhaliaeth Addysg a Grant Dysgu'r Cynulliad – Cynllluniau AB 2012 |